Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
Tachwedd 2020

# Adferiad yn dilyn pandemig y Coronafeirws: Busnesau cynhenid a chynhyrchu carbon isel

## Rhagarweiniad

Ysgrifennwyd y papur hwn ym mis Medi 2020. Mae'n rhan o gyfres o chwe briffiad a gomisiynwyd gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd i lywio a herio strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ailadeiladu ac adfer yn dilyn pandemig y Coronafeirws.Roedd y briffiadau'n canolbwyntio ar bynciau a ddewiswyd gan y Gweinidogion. Roeddent yn adeiladu ar ein gwaith i gefnogi trafodaethau bord gron a alwyd ynghyd yn gynharach gan y Gweinidog ac roeddent yn helpu i ffurfio a goleuo gwaith Grŵp Arbenigol[1] a gyfarfu â'r Gweinidog rhwng Gorffennaf a Medi 2020. Ysgrifennwyd casgliadau'r Grŵp, a chyfrannodd hynny at drafodaeth y Cabinet am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael ag effeithiau economaidd a chymdeithasol y pandemig.

Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar fusnesau cynhenid a chynhyrchu carbon isel.



## Negeseuon allweddol

- Mae twf busnesau cynhenid a mewnfuddsoddi yn strategaethau pwysig y dylid eu dilyn ar y cyd â defnydd mwy strategol o gaffael cyhoeddus er mwyn cefnogi cyflenwyr Cymreig a chreu swyddi yng Nghymru.
- Drwy ddarparu cymhellion i leoleiddio'r cadwyni cyflenwi a sicrhau eu bod yn fwy hyblyg fel rhan o strategaeth hirdymor, gall Llywodraeth Cymru gefnogi twf busnesau yng Nghymru a chreu economi sy'n fwy cadarn. Bydd mesurau i gefnogi busnesau yn rhan annatod o'r gefnogaeth i entrepreneuriaid.
- Drwy fuddsoddi mewn sgiliau ac addysg, gyda chymorth cynlluniau cadw myfyrwyr mudol a graddedigion, gellir cynorthwyo busnesau cynhenid a'r economi sylfaenol drwy ddarparu cronfa o weithwyr medrus; gellir hefyd ddenu mewnfuddsoddiad.
- Mae'n bosibl y bydd cydweithio rhwng diwydiant, cymunedau lleol a sefydliadau ymchwil yn rhoi hwb i arloesi tra'n cynyddu gweithwyr medrus a chadernid mewn cymunedau.
- Mae cyfle i annog 'adferiad gwyrdd' drwy ganfod cymariaethau rhwng y

[1] Roedd y Grŵp Arbenigwyr yn cynnwys pedwar aelod sefydlog: Torsten Bell (Prif Weithredwr y Resolution Foundation), Rebecca Heaton (pwyllgor newid hinsawdd y DU), Paul Johnson (Cyfarwyddwr y Sefydliad Astudiaethau Cyllid) a Mita Fahnbullah (Prif Weithredwr y Sefydliad Economeg Newydd).

Coronafeirws ac argyfyngau'r hinsawdd er mwyn llunio’r disgwrs mewn ffordd sy'n atgyfnerthu uchelgeisiau'r Llywodraeth i gael Cymru sy’n fwy gwyrdd.

- Bydd symud tuag at gynhyrchu carbon isel yn gofyn am roi sylw i leoliad cadwyni cyflenwi, eu dwysedd carbon a’r effaith y byddant yn eu cael ar yr amgylchedd.
- Dylai Llywodraeth Cymru geisio nodi’r sectorau lle byddai rheoleiddio yn gallu arwain at symud yr allyriadau dramor, a gweithio gyda’r sectorau hynny i hyrwyddo’r broses o drosglwyddo i ddulliau carbon isel gan ddefnyddio dulliau fel dal a storio carbon a defnyddio hydrogen ‘gwyrdd’ yn lle tanwyddau carbon uchel.
- Dylai’r camau a gymerir gan Lywodraeth Cymru i fynd i’r afael â newid yn yr hinsawdd gael eu llunio’n benodol o ran yr angen i amddiffyn y grwpiau hynny sydd fwyaf agored i’w effeithiau ac sydd hefyd yn cael eu heffeithio’n andwyol gan fathau eraill o anghyfiawnder cymdeithasol.
- Mae angen i Weinidogion sicrhau cefnogaeth y cyhoedd i ddatgarboneiddio. Gellid defnyddio’r ‘bartneriaeth gymdeithasol’ rhwng undebau llafur, grwpiau busnes a’r llywodraeth i greu consensws ar gyfer mesurau pontio, yn yr un modd â chynulliadau dinasyddion a phrosiectau sy’n canolbwyntio ar y gymuned.

## Busnesau cynhenid a mewnfuddsoddi

Mae ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd, a phandemig y Coronafeirws, wedi creu ansicrwydd ac wedi dadsefydlogi masnach a buddsoddi yng Nghymru a gweddill y DU. Mae’r gwaith ailstrwythuro sydd ei angen yn gyfle i greu economi Gymreig a fydd yn gadarn ac yn gynaliadwy yn y dyfodol. Yr her yw canolbwyntio cymorth Llywodraeth Cymru ar weithgareddau economaidd cynaliadwy a fyddai’n gallu sicrhau Cymru fwy ffyniannus, teg a gwyrdd ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn gofyn am gymorth i dwf busnesau cynhenid a’r economi sylfaenol a mewnfuddsoddi. Maent yn strategaethau sydd o fudd i’r naill ochr a’r llall, nid yn annibynnol ar ei gilydd, a dylid eu dilyn ochr yn ochr.

> **Drwy fuddsoddi mewn sgiliau ac addysg ar gyfer marchnadoedd llafur yn y dyfodol, bydd hyn nid yn unig yn cynorthwyo busnesau cynhenid... ond dylai hefyd helpu i ddenu mewnfuddsoddiad gan gwmnïau sy’n chwilio am lafur medrus iawn**

Mae strategaethau economaidd diweddar Llywodraeth Cymru wedi ceisio cynyddu cadernid a chynyddu cynhyrchiant, gan bwysleisio pwysigrwydd yr economi sylfaenol ar yr un pryd. Maent wedi rhoi blaenoriaeth benodol i wella arloesedd a gwaith teg yn yr economi sylfaenol, a’u nod yw cryfhau busnesau cynhenid (Waters, 2020). Rhywbeth sy’n berthnasol i hyn yw’r diddordeb parhaus mewn gweithgynhyrchu gwerth uchel, gwasanaethau masnachadwy, a ‘galluogwyr’ cystadleurwydd (e.e. digidol) (Llywodraeth Cymru, 2017), gyda chymorth cyllid uniongyrchol drwy ‘Feysydd Gweithredu’’[2] a gosod amodau ar gyfer cymorth

[2] Dyma’r rhain: ‘Datgarboneiddio; Arloesi, entrepreneuriaeth a phencadlys; Allforion a masnach; Cyflogaeth o ansawdd uchel, datblygu sgiliau a gwaith teg; Ymchwil a Datblygu, awtomeiddio a digideiddio’.

y Llywodraeth drwy 'Gontract Economaidd'[3]. Ochr yn ochr â'r rhain, ceir ymdrechion i adeiladu ar lwyddiannau rheoli gwastraff ac ailgylchu er mwyn tynnu sylw at botensial yr economi gylchol. Mae cydbwyso'r buddiannau hyn drwy bolisïau cydlynus yn her allweddol i Lywodraeth Cymru.

Gall mewnfuddsoddiad ddarparu cyfleoedd gwaith o ansawdd uchel, gan roi hwb i ardaloedd difreintiedig, yn enwedig lle nad yw'r economi sylfaenol yn darparu swyddi o ansawdd uchel na gwaith teg ar hyn o bryd. Yn benodol, mae cymhellion i ddenu mewnfuddsoddiad i sectorau allweddol, gydag amodau ynghylch caffael a datblygu sgiliau, yn bwysig er mwyn cyflawni'r nodau sydd yng Nghynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru. Dylai cefnogaeth y Llywodraeth i fewnfuddsoddi gael ei dylunio mewn ffyrdd sy'n annog cwmnïau tramor sy'n ymsefydlu yma i fuddsoddi mewn cadwyni cyflenwi yng Nghymru. Mae enghreifftiau cadarnhaol o hyn, megis Airbus yng Ngogledd Cymru, sef cwmni byd-eang gyda rhwydwaith sylweddol o gyflenwyr lleol, er nad yw wedi osgoi effaith y pandemig gyda'r effeithiau dilynol ar fusnesau yn ei gadwyn gyflenwi.

**Gallai cymorth wedi'i dargedu ar gyfer technolegau newydd agor llwybrau newydd a darparu swyddi newydd, medrus ledled Cymru...[a] allai roi Cymru ar flaen y gad yn y byd o ran datgarboneiddio**

Mae tystiolaeth yn awgrymu y gellir cefnogi busnesau Cymru drwy strategaethau caffael a thrwy gefnogi busnesau bach a chanolig i gystadlu am geisiadau drwy wella gwybodaeth a chyfathrebu, gan arwain at fanteision economaidd a chymdeithasol lleol (Price, 2019; What Works Local Economic Growth, 2020). Mae Cyngor Dinas Manceinion wedi creu rhwydwaith o gyflenwyr er mwyn deall ei gadwyn gyflenwi, gan arwain at gynnydd o 16% mewn gwariant gyda chyflenwyr lleol dros gyfnod o chwe blynedd (Jackson, 2016).

Yr hyn sy'n nodweddu busnesau Cymru yw lefelau cymharol isel o dwf cadarn a phroffidioldeb, gan ffafrio sefydlogrwydd dros dwf, ac mae goblygiadau i faterion polisi (Heley et al., 2012; Kapitsinis et al., 2019). Er bod credydau treth Ymchwil a Datblygu ar gael, mae'r nifer sy'n manteisio ar y rhain yn isel ac mae sicrhau buddsoddiad mewn Ymchwil a Datblygu yn dal yn her. Gallai cynyddu ymwybyddiaeth o'r cymhellion hyn annog cwmnïau i fanteisio arnynt.



Mae tystiolaeth o wledydd eraill yn tynnu sylw at bwysigrwydd cydweithio rhwng diwydiant, cymunedau lleol, prifysgolion a sefydliadau ymchwil i gefnogi twf mewn ardaloedd a rhanbarthau diwydiannol. Er bod cynnydd wedi'i wneud o ran meithrin cysylltiadau, nid yw'r rhwydweithiau hyn wedi'u datblygu'n ddigonol yng Nghymru o hyd (Asheim a Grillitsch, 2015; Huggins a Prokop, 2017). Mae'n bosibl y bydd cydweithio o'r fath yn rhoi hwb i arloesi tra'n cynyddu nifer y gweithwyr medrus a'r cadernid mewn cymunedau. Gallai rhai o'r mesurau cymorth busnes a gynigir yn ein papur cyntaf ar

[3] Mae hyn yn cynnwys: Y potensial i dyfu; Gwaith teg; Hyrwyddo iechyd (gan gynnwys iechyd meddwl); sgiliau a dysgu yn y gweithle; camu ymlaen at leihau ôl troed carbon.'

gyfer y Grŵp Arbenigwyr gefnogi hyn, gan gynnwys creu clystyrau arloesi ledled Cymru a thargedu cymorth i fusnesau bach a chanolig ar gyfer entrepreneuriaeth, cydweithio a rhwydweithiau (Morgan a Holtham, 2020) Gellid datblygu strategaeth entrepreneuriaeth leol sy'n gysylltiedig â pholisi economaidd a strategaethau buddsoddi rhanbarthol. Drwy gefnogi rhwydweithiau, a darparu cymhellion o ran lleoliad a chysylltedd, gellid annog entrepreneuriaid bach i adleoli i Gymru gan arwain at orlif cadarnhaol a chadwyni cyflenwi byrrach.

Dyma rai mesurau eraill a awgrymwyd yn ein papur cyntaf, a fyddai o fudd i fusnesau cynhenid ac sy'n cynyddu'r gwerth ychwanegol yng Nghymru: sefydliad deallusrwydd artiffisial; system cymorth busnes ar gyfer busnesau newydd ym maes technoleg; fframwaith sgiliau newydd; cynyddu cyllid yn sylweddol i gefnogi seilwaith digidol, arloesedd a sgiliau yn yr economi sylfaenol (Brown, 2019; Huggins 2020); ail-lunio rôl Banc Datblygu Cymru i fod yn sefydliad ailstrwythuro ac adfywio; a chefnogi arloesedd mewn prosesau gweithgynhyrchu. Dylai penderfyniadau buddsoddi'r sector cyhoeddus sy'n ceisio cefnogi busnesau gael eu llywio gan broffiliau ymddygiad ar gyfer yr ardal. Drwy adnabod nodweddion ardal, gellir penderfynu a yw'r buddsoddiad yn debygol o fod yn llwyddiannus, a pha gymorth fyddai o fudd (Huggins, 2020).

Er mwyn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag argyfyngau yn y dyfodol, mae cadwyni cyflenwi cyfochrog yn cynnig ateb i dagfeydd cadwyn gyflenwi drwy feithrin 'capasiti ymchwyddol' oherwydd gall busnesau newid i gyflenwyr yng Nghymru pan fydd pethau'n effeithio ar gadwyni cyflenwi byd-eang. Gallai hyn fod yn arbennig o bwysig ar gyfer nwyddau lle gallai fod galw brys (fel offer meddygol neu gyffuriau critigol). O dan amgylchiadau arferol, yng Nghymru y byddai 20-30% o'r gadwyn gyflenwi ar gyfer cynnyrch, ac yna petai argyfwng, byddai hyn yn cynyddu i 80-90% (Pwyllgor Masnach Ryngwladol, 2020; Roscoe, 2020).

Fodd bynnag, gall newid cadwyni cyflenwi ar gyfer gwasanaethau yn ogystal â gweithgynhyrchu fod yn afresymol o ddrud. Felly, dylai'r gallu i wneud newidiadau fod yn rhan o strategaeth hirdymor a gefnogir gan y Llywodraeth. Byddai hyn yn gymorth i ddatblygu gallu busnesau i ymaddasu ac i arloesi, sy'n hanfodol er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon. Gallai'r dulliau polisi posibl i gyflawni hyn gynnwys cymhellion treth, gwarantau, cymorthdaliadau a buddsoddi mewn hyfforddiant, ochr yn ochr â datblygu rhwydweithiau busnes i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chynhyrchiant a pherfformiad (Roscoe, 2020; Morgan a Holtham, 2020). Gellid llunio'r rhain drwy ymgynghori â chynrychiolwyr busnesau.

> **Mae pandemig y Coronafeirws, a'r cyfyngiadau sy'n deillio o hynny, wedi arwain at fwy o bobl yn siopa'n lleol, mwy o werthfawrogiad o fannau gwyrdd, a llai o allyriadau teithio wrth i fwy o bobl weithio gartref**

Drwy fuddsoddi mewn sgiliau ac addysg ar gyfer marchnadoedd llafur yn y dyfodol, bydd hyn nid yn unig yn cynorthwyo busnesau cynhenid a'r economi sylfaenol, ond dylai hefyd helpu i ddenu mewnfuddsoddiad gan gwmnïau sy'n chwilio am lafur medrus iawn. Er mai'r peth gorau i gymell gweithwyr i symud i ardal yw economi ffyniannus, gallai cynlluniau cadw myfyrwyr mudol a graddedigion, fel yr awgrymir yn ein papur cyntaf, fod yn rhan o fesurau'r farchnad lafur i'w gwneud yn fwy deniadol i fyfyrwyr cartref a rhyngwladol aros yng Nghymru i weithio.

## Arweinyddiaeth fyd-eang mewn cynhyrchu carbon isel

**Cynhyrchu a datgarboneiddio cynhyrchu**

Mae gan Gymru gyfran uchel o ddiwydiannau sy'n defnyddio llawer o garbon a/neu sydd ag allyriadau uchel, gan gynnwys cynhyrchu dur, awyrennau a moduron, ond mae ganddi'r potensial hefyd i fod yn arweinydd byd-eang ym maes datgarboneiddio[4]. Fodd bynnag, nid yw symud tuag at weithgynhyrchu carbon isel o reidrwydd yn golygu rhoi'r gorau i'r holl gefnogaeth i'r diwydiant allyriadau uchel o blaid diwydiannau 'gwyrddach'. Bydd galw parhaus am gynnyrch carbon-ddwys ac, fel yn achos dur, gall Cymru gynhyrchu i safon amgylcheddol uwch na rhannau eraill o'r byd, felly gallai cau ei diwydiant olygu dim ond symud yr allyriadau dramor (Mahler, 2019).

Felly, dylid cadw rhai diwydiannau allyriadau uchel yn hytrach na'u disodli, gan weithio gyda nhw i'w cynorthwyo i ddatgarboneiddio. Bydd angen i'r gwaith o ddal a storio carbon chwarae rhan bwysig yn hyn yn y tymor hir (CCC, 2017), a dylid cefnogi cynigion cychwynnol gan HyNet yng Ngogledd Cymru. Gallai opsiynau eraill gynnwys disodli tanwyddau carbon uchel gan hydrogen 'gwyrdd' (h.y. wedi'i gynhyrchu'n lân) (Sen, 2020). Profwyd hyn ar gyfer cynhyrchu dur yn Sweden.



Bydd hyn yn galw am fuddsoddiad sylweddol gan y llywodraeth a'r sector preifat i ddatblygu prosesau a thechnolegau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer diwydiannau Cymru, gan gynnwys cefnogi gwaith grwpiau diwydiant fel Clwstwr Diwydiannol De Cymru. Gallai cymorth wedi'i dargedu ar gyfer technolegau newydd agor llwybrau newydd a darparu swyddi newydd, medrus ledled Cymru. Mae'n bosibl fod y technolegau hyn rai blynyddoedd i ffwrdd o fod yn aeddfed, ond drwy gefnogi'r diwydiannau hyn gellid rhoi Cymru ar flaen y gad o ran datgarboneiddio. Bydd angen i Gymru barhau i gefnogi cynhyrchu ynni carbon isel, gan gynnwys bod yn agored i orsafoedd pŵer niwclear newydd, yn enwedig os bydd y defnydd o hydrogen yn dod yn gyffredin (Sen, 2020). Gallai defnyddio modelau newydd y DU o Adweithyddion Modwlar Bach (niwclear) yn Nhrawsfynydd roi cymorth i gynhyrchu ynni carbon isel cadarn.

## Ar grwpiau sydd fwyaf agored i newid yn yr hinsawdd y mae'r pandemig wedi cael yr effaith fwyaf niweidiol

Gan fod lle i gynhyrchu hydrogen ac ynni yng Nghymru, gallai hyn hefyd fod yn gymorth i fyrhau'r cadwyni cyflenwi ac i'w hail-leoli yma pan fo'r rhain yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd, gan fod mewnforio deunyddiau crai a thanwydd o farchnadoedd tramor yn gallu bod yn niweidiol i'r amgylchedd hyd yn oed pan fydd y broses yn 'lân' yng Nghymru. Bydd hyn yn arwain at fanteision i gymunedau lleol, yn enwedig os oes mwy o gynhyrchu neu weithgynhyrchu lleol drwy gadwyni cyflenwi diwydiannol. Fel y trafodwyd uchod, bydd hyn yn galw am gefnogaeth gan y Llywodraeth, gan gynnwys buddsoddi mewn hyfforddiant a sgiliau,

[4] Mae papurau blaenorol wedi rhoi sylw i ddatgarboneiddio tai (papur 2), ynni (papur 2) ac amaethyddiaeth (papur 4).

ond gallai ddarparu swyddi da ledled Cymru a'r DU.

Mae cadwyni cyflenwi lleol yn fwy tebygol o fod yn weladwy ac yn dryloyw, ond gellid annog neu gymell busnesau i hyrwyddo cynaliadwyedd yn eu cyflenwyr – yn enwedig os ydynt eisoes yn edrych eto ar y cadwyni cyflenwi yn dilyn y pandemig. Gallai Llywodraeth ddarparu meini prawf i gynorthwyo i ddethol cyflenwyr mwy lleol a mwy cynaliadwy, o bosib ar sail ei gyngor ei hun ar gyfer caffael.

### Cyfle i greu adferiad gwyrdd

Mae cyfle i ddefnyddio'r ffaith fod y cyhoedd yn fwy pryderus am y newid yn yr hinsawdd i annog 'adferiad gwyrdd'. Mae pandemig y Coronafeirws, a'r cyfyngiadau sy'n deillio o hynny, wedi arwain at fwy o bobl yn siopa'n lleol, mwy o werthfawrogiad o fannau gwyrdd, a llai o allyriadau teithio wrth i fwy o bobl weithio gartref. Manteisir eisoes ar rai o'r newidiadau hyn eisoes, gyda'r nod o'u gwneud yn barhaol, e.e. gwell llwybrau beicio yng Nghaerdydd i annog teithio llesol.  Gallai cynlluniau 'adferiad gwyrdd' eraill gynnwys blaenoriaethu mynediad at fannau gwyrdd mewn dulliau cynllunio, a thargedu cymorth i strydoedd mawr lleol i greu'r gymysgedd iawn o adwerthu a gwasanaethau i sefydlu siopa lleol fel y norm.

Gellir tynnu nifer o gymariaethau rhwng yr argyfwng presennol a'r risgiau a'r heriau y mae cymdeithas yn eu hwynebu wrth fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd: mae'r pandemig wedi tynnu sylw at ddiffyg cynllunio tymor hir; mae wedi tanlinellu'r anghydraddoldebau presennol; ac mae wedi gweld y cyhoedd yn derbyn (ar hyn o bryd o leiaf) ymyriad gan y wladwriaeth/sector cyhoeddus ar raddfa fawr. Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i weithredu'r rhyng-gysylltiadau sy'n bodoli rhwng nodau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd, megis y cynlluniau canlynol sy'n cyd-fynd â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sef sicrhau Cymru sy'n fwy gwyrdd, yn fwy ffyniannus ac yn fwy cyfartal:

- Mae cynigion penodol ar gyfer sicrhau gostyngiad o 95% mewn allyriadau erbyn 2050 wedi'u nodi yn 'Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel' (Llywodraeth Cymru, 2019);
- Paratoi gweledigaeth 25 mlynedd ar gyfer trafnidiaeth mewn Strategaeth Drafnidiaeth ar gyfer Cymru; ac
- Ymrwymiad i gyhoeddi cynllun terfynol ar gyfer dileu tlodi tanwydd yn 2020.

Gellir tynnu cymariaethau hefyd rhwng cyfiawnder yn yr hinsawdd a chyfiawnder cymdeithasol. Ar grwpiau sydd fwyaf agored i newid yn yr hinsawdd y mae'r pandemig wedi effeithio'n fwyaf aml. Wrth gefnogi adferiad gwyrdd, bydd angen i Lywodraeth Cymru hyrwyddo'r syniad o 'drosglwyddiad cyfiawn', h.y. rheoli datgarboneiddio mewn ffordd sy'n lliniaru canlyniadau anghyfiawn ac er mwyn hyrwyddo canlyniadau cyfiawn (Price, 2019). Yn y cyd-destun hwn, gellir cyfleu'r alwad i weithredu ar newid yn yr hinsawdd fel gweithredu i osgoi argyfyngau yn y dyfodol.

Er mwyn i Lywodraeth Cymru lwyddo i gyfleu'r 'her' yn nhermau tegwch a pharodrwydd, mae angen cydsyniad cyhoeddus eang i sicrhau y bydd camau gweithredu polisi yn gweithio yn y tymor hir ac y byddant yn cael eu derbyn gan y cyhoedd (Corner, 2020).

Ni fydd camau gweithredu o'r brig i lawr gan y llywodraeth yn ddigon. Mae angen i Weinidogion sicrhau cefnogaeth y cyhoedd i ddatgarboneiddio. Gellid defnyddio'r 'bartneriaeth gymdeithasol' rhwng undebau llafur, grwpiau busnes a'r llywodraeth i helpu i sicrhau bod mesurau pontio yn cael eu derbyn fwy, yn yr un modd â gwasanaethau dinasyddion a phrosiectau sy'n canolbwyntio ar y gymuned fel Project Skyline, a oedd yn galluogi trigolion mewn rhai cymunedau yng Nghymoedd y De i benderfynu beth i'w wneud â thir sy'n eiddo i'r cyhoedd. Gallai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried datganoli pwerau i gymunedau, gan gydnabod bod yr anghenion

lleol, y blaenoriaethau a'r cyfleoedd yn amrywio drwy Gymru.

## Ffynonellau


Asheim, B., a Grillistch, M. (2015). **Smart specialisation: sources for new path development in a peripheral manufacturing region.** Papers in Innovation Studies. Cyrchwyd o: https://ideas.repec.org/p/hhs/lucirc/2015_011.html

Brown, P. (2019). **Review of digital innovation: delivering economic transformation for a better future of work.** Cyrchwyd o: https://llyw.cymru/adolygiad-o-arloesi-digidol-adroddiad-terfynol

Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd. (2017). **Building a low-carbon economy in Wales – Setting Welsh carbon targets.** Cyrchwyd o: https://www.theccc.org.uk/publication/building-low-carbon-economy-wales-setting-welsh-carbon-targets/

Corner, A. (2020). **Covid, climate change & citizens' assemblies: the critical role of deliberation for planned transitions.** CAST. Cyrchwyd o: https://cast.ac.uk/covid-climate-change-citizens-assemblies-the-critical-role-of-deliberation-for-planned-transitions/

Heley, J., Gardner, G., & Watkin, S. (2012). **Cultures of local economy in a Celtic fringe region.** European Urban and Regional Studies, 19(4), 366–382.

Huggins, R. (2020). **Why economic development needs to get a handle on regional behaviours to maximise its potential**. Business Live Opinion. 18 Mai. Cyrchwyd o: https://www.business-live.co.uk/opinion-analysis/economic-development-needs-handle-regional-18271499

Huggins, R. and Prokop, D. (2017). **Network structure and regional innovation: a study of university-industry ties.** Urban Studies. 54(4): 931-952.

International Trade Committee. (2020). **The COVID-19 pandemic and international trade: First Report of Session 2019–21.** Tŷ'r Cyffredin 29 Gorffennaf 2020. Cyrchwyd o: https://publications.parliament.uk/pa/cm5801/cmselect/cmintrade/286/28602.htm

Jackson, M. (2016). **Creating a good local economy through procurement.** European Regional Development Fund - URBACT. Cyrchwyd o: https://urbact.eu/sites/default/files/pages_de_procure_state_of_the_art.pdf

Kapitsinis, N., Munday, M. and Roberts, A. (2019). **Medium-sized businesses and Welsh business structure**. Dirnad Economi Cymru. Cyrchwyd o: https://developmentbank.wales/sites/default/files/2019-11/EIW%20Quarterly%20Bespoke%20report%20English.pdf

Mahler, L. (2019). **UK steel industry on the brink.** The Ecologist. Cyrchwyd o: https://theecologist.org/2019/may/30/uk-steel-industry-brink

Morgan, K. a Holtham, G. (2020) **Managing Productivity in Welsh Firms: Final Report.** Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Sefydliad Hodge. Cyrchwyd o: https://www.welsheconomicchallenge.com/wp-content/uploads/2020/03/Cardiff-Met-Hodge-Final-Report-2020-final.pdf

Price, J. (2019). **Pam 'Trawsnewid Cyfiawn'? Datgarboneiddio a chyfiawnder economaidd.** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Cyrchwyd o: https://www.wcpp.org.uk/cy/sylwebaeth/pam-trawsnewid-cyfiawn-datgarboneiddio-a-chyfiawnder-economaidd/

Roscoe, S. (2020). **The future of UK supply chains in a disrupted world.** LSE Politics and Policy. Cyrchwyd o: https://blogs.lse.ac.uk/businessreview/2020/05/19/the-future-of-uk-supply-chains-in-a-disrupted-world-brexit-and-covid-19/

Sen, S. (2020). **Only Connect: Joining Up Wales's Clean Energy Opportunities.** Sefydliad Materion Cymreig. Cyrchwyd o: https://www.iwa.wales/agenda/2020/07/only-connect-joining-up-waless-clean-energy-opportunities/

Llywodraeth Cymru. (2017). **Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi** Cyrchwyd o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi.pdf

Llywodraeth Cymru. (2019). **Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel.** Cyrchwyd o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/cynllun-cyflawni-carbon-isel-cy_0.pdf

Waters, L. (2020). **It's time to focus on the everyday economy**. Sefydliad Materion Cymreig. Cyrchwyd o: https://www.iwa.wales/agenda/2020/01/its-time-to-focus-on-the-everyday-economy/

What Works Local Economic Growth. (2020). **Local procurement.** Cafwyd o: https://whatworksgrowth.org/resources/local-procurement-1/

**Manylion yr awduron**

Helen Tilley, Craig Johnson, Manon Roberts a Jack Price – Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

## Ein gwaith ar bandemig y Coronafeirws

Rydym wedi cynnal amrywiaeth o brosiectau i ddarparu tystiolaeth annibynnol i wneuthurwyr polisïau a gwasanaethau cyhoeddus ar yr adferiad economaidd a chymdeithasol yn dilyn pandemig y Coronafeirws. Yn ogystal â phapurau a baratowyd ar gyfer y Grŵp Arbenigwyr a alwyd ynghyd gan Weinidogion Llywodraeth Cymru, rydym wedi arwain asesiad cynhwysfawr o'r dystiolaeth ar Gefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer cynllun Llywodraeth y DU ar 'Rebuilding a Resilience Britain' dan arweiniad Syr Patrick Vallance; wedi cyhoeddi casgliadau chwe bord gron arbenigol ar adferiad yn dilyn y pandemig; wedi cyhoeddi dadansoddiad o ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar 'Ein Dyfodol'; ac wedi cynhyrchu cyfres o flogiau ar faterion allweddol, gan gynnwys unigrwydd yn ystod y cyfyngiadau ar symud, y goblygiadau i economi Cymru, pwysigrwydd ysgogiad i'r economi werdd i gynorthwyo adferiad, a dyfodol iechyd a gofal cymdeithasol.

## Ynglŷn â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y ganolfan, rydym yn cydweithio gydag arbenigwyr polisi blaenllaw er mwyn darparu tystiolaeth o ansawdd uchel a chyngor annibynnol i weinidogion, y Gwasanaeth Sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru sydd yn eu helpu i wella penderfyniadau polisi a deilliannau.

Mae'r ganolfan, sydd wedi ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, wedi ei lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n rhan o Rwydwaith yr Hyn sy'n Gweithio y DU.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r

**Athro Steve Martin**

+44 0 29 2087 5202

steve.martin@wcpp.org.uk

**Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**

Prifysgol Caerdydd, 10/12 Plas yr Amgueddfa, Caerdydd, CF10 3BG

www.wcpp.org.uk/cy

029 2087 5345

info@wcpp.org.uk

@WCfPP

Cardiff University / Prifysgol Caerdydd

Economic and Social Research Council

Llywodraeth Cymru / Welsh Government